

Ydych chi wedi cofrestru ar gyfer ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth sydd am ddim?

Rydyn ni'n deall bod toriad pŵer yn gallu bod ychydig yn anoddach neu'n ofidus i rai o'n cwsmeriaid. Dyna pam rydyn ni'n cynnig cymorth ychwanegol i'r rheini sydd ei angen fwyaf.

- ✓ Oedran pensiwn
- ✓ Anghenion cyfathrebu arbennig
- ✓ Dibynnu ar drydan ar gyfer gofal meddygol
- ✓ Gyda phlant dan 5 oed
- ✓ Neu os ydych chi'n teimlo bod arnoch angen ychydig o help ychwanegol



Os byddwch yn cofrestru gyda ni byddwn yn:

Rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os oes bwriad i dorri eich cyflenwad trydan, a byddwn yn cadw mewn cysylltiad gyda diweddariadau rheolaidd yn ystod toriad pŵer sydd heb ei gynllunio.

Sut i gofrestru ar gyfer ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR):

- Ffoniwch ni ar **0330 10 10 167**
- Anfonwch y neges destun PSR i **61999** a byddwn yn cysylltu â chi o fewn 48 awr
- Anfonwch e-bost at ein tîm gofal cwsmeriaid ar: **socialobligationscaring@spenergynetworks.co.uk**
- Defnyddiwch ein gwefan i gyflwyno ffurflen ar-lein yn: **spenergynetworks.co.uk/priorityservices**



Hygyrchedd

Cwsmeriaid â nam ar eu clyw

Rydyn ni'n cynnig dulliau cyfathrebu eraill i wneud pethau'n haws i chi. Gwasanaeth Cyfnewid Testun - deialwch **18001** cyn unrhyw un o'r rhifau ar dudalen gefn y daflen hon.

Cwsmeriaid â nam ar eu golwg

Os hoffech chi gael unrhyw un o'n taflenni neu ddogfennau i gwsmeriaid mewn Braille neu destun mawr, cysylltwch â ni a byddwn yn trefnu hyn i chi.

Cyfieithwyr ar y pryd

Os oes arnoch angen cyfieithiad, rydyn ni'n defnyddio Language Line ar gyfer gwasanaethau ar ffurf galwadau cynadledda. Mae'r gwasanaeth ffôn hwn ar gael am ddim **24/7**, gan gynnig dros **100 o ieithoedd**. Cysylltwch â ni'n uniongyrchol i drefnu'r gwasanaeth hwn ar **0330 10 10 444**.

Mae ein gwefan yn bodloni safonau Hygyrchedd AA.

Cysylltu â ni

I roi gwybod am doriad pŵer a chael gwybodaeth amdano, neu os ydych chi'n gweld difrod i linellau pŵer, ceblau neu is-orsafoedd - ffoniwch 105

**POWER CUT?
CALL 105**



Fel arall, cysylltwch â ni ar y rhifau canlynol:

Canol a De'r Alban:
0800 092 9290

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig
0800 001 5400

Dilynwch ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf

@SPEnergyNetwork @SPEnergyNetworks @SPEnergyNetworks

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth

www.spenergynetworks.co.uk



SCP9007 NOV 23



**Cyngor
defnyddiol yn
ystod toriad pŵer**



Dim trydan? Beth i'w wneud gyntaf

Os byddwch yn colli pŵer yn annisgwyl, mae rhai camau pwysig y dylech eu cymryd.

A yw'r goleuadau stryd ymlaen?
Oes gan eich cymdogion bŵer?

Os oes ganddynt bŵer o hyd, gallai'r problem fod yn eich cartref yn hytrach na thoriad pŵer yn eich ardal.



Edrychwch os ydi unrhyw un o'ch switsys torri cylched (tripswitches) wedi diffodd. Os oes unrhyw rai wedi 'diffodd', diffoddwch eich holl declynnau ac ailosodwch y switsys.

OS YDYCH CHI'N MEDDWL BOD TORIAD PŴER, gallwch ddefnyddio eich cod post i chwilio am doriadau pŵer yn eich ardal. Ewch i www.spenenergynetworks.co.uk/postcode – mae'n bosibl bod manylion am ba bryd y bydd eich pŵer yn dod yn ôl ar gael yno'n barod.

Gallwch hefyd ffonio'r rhif rhadffôn cenedlaethol **105** i roi gwybod am y toriad pŵer – peidiwch â chymryd yn ganiataol ein bod ni'n gwybod nad oes gennych chi drydan.

BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDDA I'N GALW 105?

- Efallai y bydd arnom angen rhywfaint o wybodaeth fel eich enw, eich cod post a rhif eich tŷ.
- Efallai y byddwch yn cael eich cysylltu â'n system negeseuon llais a fydd yn rhoi neges wedi'i recordio i chi sydd wedi'i thargedu at eich ardal ddaearyddol gyda gwybodaeth am y toriad a'r amser y disgwylir i'r pŵer gael ei ailgysylltu, lle bynnag y bo modd.
- Byddwn yn gofyn a oes unrhyw anghenion ychwanegol yn eich cartref y dylem wybod amdanynt yn ystod y cyfnod heb drydan.

**POWER CUT?
CALL 105**



Cyngor defnyddiol yn ystod toriad pŵer

- Datgysylltwch offer sensitif fel setiau teledu, offer lloeren a chyfrifiaduron.
- Diffoddwch offer - yn enwedig tanau, poptai, heyrn smwddio a sythwyr gwallt - rhag ofn i chi anghofio eu bod ymlaen pan fydd pŵer yn dod yn ôl.
- Gadewch switsh golau uwchben ymlaen fel eich bod yn gwybod pan fydd y pŵer yn ôl.
- Dylech osgoi agor eich oergell neu eich rhewgell fwy nag sydd raid.
- Gwnewch yn siŵr bod cymdogion oeddrannus neu agored i niwed yn ddiogel ac yn gyfforddus.
- Gall goleuadau stryd hefyd fod wedi diffodd felly cymerwch ofal y tu allan.
- Yn ystod tywydd oer, gwisgwch yn gynnes a rhoi sawl haen o ddillad amdanoch.
- Ni fydd llawer o systemau gwres canolog na gwresogyddion dŵr yn gweithio. Mae gwresogyddion symudol yn ddewis arall da ond byddwch yn ofalus lle rydych chi'n eu rhoi.
- Defnyddiwch eich gliniadur neu ffôn clyfar cyn lleied â phosibl i arbed pŵer y batri.
- Pan fydd pŵer yn cael ei ailgysylltu, trowch eich offer ymlaen un ar y tro.

Diogelwch – llinellau pŵer wedi cwmpo

Os oes ceblau pŵer ar y llawr neu'n agos ato, cadwch yn glir - gallan nhw fod yn fyw. Os ydych chi'n gweld unrhyw un o'r canlynol, ffoniwch **105** ar frys:

- Llinell neu offer wedi'u difrodi
- Llinellau uwchben ar y ddaear neu'n ddigon isel i bobl neu gerbydau ddod i gysylltiad â nhw
- Gwifrau uwchben wedi troelli neu wedi'u gwrthio at ei gilydd gan ganghennau coed wedi torri
- Ffensiau is-orsaf wedi'u torri neu orchuddion tyllau archwilio trydan wedi'u difrodi sy'n golygu bod offer byw mewn golwg
- Mesuryddion trydan a chyfarpar cysylltiedig nad ydynt yn ddiogel nac yn dal dŵr.



Os yw llinellau pŵer sydd wedi cwmpo mewn man cyhoeddus, **ffoniwch 999** a helpu i gadw pobl sy'n pasio heibio ymhell i ffwrdd nes bydd y gwasanaethau brys yn cyrraedd.

Paratoi ar gyfer toriad pŵer

- Cadwch y rhif argyfwng 105 ar eich ffôn symudol neu ei gadw yn rhywle hawdd ei gyrraedd.
- Cadwch dortsh gyda batris wedi'u gwefru mewn lle hwylus.
- Efallai na fydd y rhan fwyaf o ffonau cartref digidol yn gweithio mewn toriad pŵer, felly cadwch ffôn symudol neu ffôn analog wedi'i wefru'n llawn wrth law.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut i gau drysau garej trydanol a giatiau gyda llaw.
- Os oes gennych chi eneradur, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei osod yn ddiogel. Os nad ydych chi, gallech chi niweidio eich eiddo a pheryglu bywydau.



Offer meddygol

Os ydych yn defnyddio offer meddygol trydanol, dylech fod â chynlluniau ar waith ar gyfer toriadau pŵer hir, gan gynnwys batri wrth gefn ar gyfer eich offer.

Os oes gennych lifft grisiau sy'n cael ei weithredu gan y prif gyflenwad, holwch i weld a oes handlen y gellir ei gweithredu â llaw i ddychwelyd y lifft grisiau'n ddiogel i lefel y ddaear.

Os ydych chi'n dibynnu ar drydan at ddibenion meddygol, gallwn gynnig cymorth ychwanegol yn ystod toriad pŵer. Cysylltwch â ni ar 105 i wneud yn siŵr eich bod wedi cofrestru ar gyfer ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.



Ar gyfer problemau iechyd difrifol, ffoniwch NHS Direct/NHS 24 Scotland ar 111 neu Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 (efallai y codir tâl am alwadau).

Ffoniwch 999 mewn argyfwng.